

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol Dirybudd - AGIC**

Cynllun gweithredu – Mehefin 2012

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Cyflawni Nyrsio, yn gysylltiedig â'r Grŵp Gwella Ymgysylltiad a Phrofiad y Cleifion – a byddant yn atebol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Dylid darllen y Cynllun Gweithredu ar y cyd â chynllun gweithredu Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap - AGIC, cynllun gweithredu Adolygiad yr Ombwdsmon a chynllun gweithredu adolygiad y Cyngor Iechyd Cymuned

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
	Amgylchedd y ward:				
3.2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod mesurau wedi eu sefydlu ar draws y Bwrdd Iechyd i hysbysu pobl eraill bod gofal a thriniaeth yn digwydd y tu ôl i lenni/drysau caeedig.	Bydd arwyddion Gofal ar Waith yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd un gwely. Bydd pegiau'n cael eu cyflwyno yn y manau â nifer o welyau â llenni rhyngddynt. Bydd y newidiadau i arfer yn cael eu rhannu yng Nghyfarfod y Prif Nyrsys er mwyn eu gweithredu ar draws Powys.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal Prif Nyrs y Ward gyda chymorth y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	Mehefin 2012 Awst 2012	Defnyddir arwyddion yn yr ystafelloedd un gwely. Defnyddir pegiau ac arwydd yn y manau â nifer o welyau â llenni rhyngddynt.
3.3	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cleifion ar Ward Epynt yn gallu defnyddio cyfleusterau'r ystafell fwyta ar adeg bob pryd bwyd.	Bydd cyfarfod y Tîm Aml-ddisgyblaethol yn cael ei symud i ystafell wahanol (ystafell gyfarfod). Bydd yr ystafell fwyta ar gael ar gyfer bob pryd bwyd.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Mehefin 2012	Mae'r Tîm Aml-ddisgyblaethol bellach yn cyfarfod mewn ystafell gyfarfod benodedig ac felly mae'r ystafell fwyta ar gael bob amser.
3.4	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff ar y wardiau'n gwisgo bathodynau adnabod pan fyddant ar	Bydd yr holl staff yn cael eu hatgoffa ei bod yn un o bolisiau craidd y Bwrdd Iechyd y dylid gwisgo	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr	Mehefin 2012	Mae gan yr holl staff, gan gynnwys y staff domestig, clericiaid y wardiau a staff

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
	ddyletswydd.	<p>bathodyn adnabod. Rhoddir cymorth i unrhyw staff nad oes ganddynt fathodyn i gael un.</p> <p>Adolygir y math o fathodynnau enwau a ddefnyddir gan y staff clinigol (fydd yn golygu bod cleifion yn gallu darllen eu henwau'n eglur) a cheir bathodynnau priodol ar eu cyfer.</p>	ardal	Awst 2012	<p>clerigol yr ysbyty, fathodynnau adnabod ac maent yn eu gwisgo.</p> <p>Mae Grŵp Prif Nyrsys y Wardiau wedi trafod y ffordd ymlaen ac wedi cytuno arni.</p>
3.5	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau storio ar y wardiau er mwyn sicrhau bod eiddo'r cleifion a chyflenwadau'r ward yn cael eu cadw'n briodol.	Bydd y trefniadau storio ar ward Brecon yn cael eu hadolygu. Bydd gan yr holl gleifion gypyrddau â chlo wrth ochr y gwely a bydd silffoedd ychwanegol yn cael eu gosod lle mae'n briodol.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Mehefin 2012	Mae cypyrddau â chlo wedi eu harchebu ac mae un wrth ymyl bob gwely bellach.
3.6	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu lleoliad y man bwyta ar Ward y Bannau er mwyn ceisio rhoi mwy o breifatrwydd i gleifion yn ystod prydau bwyd.	Bydd cynllun ffisegol y ward yn cael ei adolygu i benderfynu a oes rhywle gwahanol ar gael ar gyfer ystafell/man bwyta. Os nad oes modd symud y man bwyta, edrychir ar fesurau ychwanegol i hybu'r defnydd o'r ystafell fwyta a gwella'r profiad o wneud hynny.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Awst 2012	<p>Mae'r manau ffisegol wedi eu hadolygu ac nid oes unlle arall addas ar y ward. Mae ystafell fwyta'r ward yn ymarferol ac mae'r cleifion yn nodi ei fod yn dderbyniol.</p> <p>Mae adegau pryd bwyd yn cael eu diogelu ar y ward a byddant yn parhau felly er mwyn sicrhau nad oes unrhyw darfu ar amser pryd bwyd.</p> <p>Bydd arolwg o farn y cleifion ynglŷn â defnyddio'r fan hon yn cael ei gynnal.</p>

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
	Cynllunio a darparu gofal:				
3.7	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod anghenion y cleifion, fel y'u nodir yn asesiadau'r cleifion, yn cael eu cysylltu â chynllun gofal y cleifion.	<p>Bydd y rhaglen waith ynglŷn â Chynllunio Gofal sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda Phrif Nyrsys y Wardiau yn parhau hyd at y cam gweithredu.</p> <p>Bydd cynlluniau gofal pob nyrs gofrestrdig ar y ward yn cael eu hadolygu fel rhan o'u proses Adolygu Datblygiad Personol, er mwyn cynnig cymorth sydd wedi ei dargedu'n well i fodloni'r safon ofynnol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Prif Nyrs y Ward gyda chymorth Uwch Nyrs</p>	Hydref 2012	Mae cynllun treialu ar y broses o gynllunio gofal wedi ei ddechrau – bydd adborth ar y cynllun treialu yn dod i mewn yn gynnar ym mis Medi
3.8	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod holl gynlluniau gofal y cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd gan y staff.	<p>Fel rhan o waith Prif Nyrsys y Ward ar gynllunio gofal, bydd safon yn cael ei gosod i nodi pa mor aml y mae'n rhaid adolygu'r cynlluniau gofal.</p> <p>Rhoddir nodyn eglur ar y cynlluniau gofal i roi gwybod pryd y'i hadolygwyd yn ffurfiol gan y Nyrs Gofrestredig.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Prif Nyrs y Ward gyda chymorth Uwch Nyrs</p>	Awst 2012	
3.9	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau eglur ar gyfer dogfennau nyrsio wedi eu sefydlu ar y wardiau er mwyn sicrhau ei bod yn rhwydd cael gafael ar y cofnodion asesu, cynllunio gofal a gwerthuso.	<p>Bydd y darnau gwaith penodol ynglŷn â'r dogfennau nyrsio yn cael eu dwyn ynghyd i greu Polisi Cadw Cofnodion Nyrsio.</p> <p>Mae'r elfennau yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> - dogfennau asesu nyrsio 	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p>	Hydref 2012	

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
		(gwaith cenedlaethol) - dogfennau cynllunio gofal (gwaith Powys)			
	Rheoli Cofnodion				
3.10	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl ffurflenni 'Peidiwch â Cheisio Dadebru' (DNAR) wedi eu llenwi'n llwyr a'u bod yn gyfredol.	Prif Nyrsys y Wardiau i adolygu'r holl ffurflenni DNAR a ddefnyddir ar y ward i sicrhau eu bod yn gyflawn.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Mehefin 2012	Mae anghysondebau yn y ffurflenni DNAR yn cael eu nodi a'u trafod gyda'r staff priodol yn ddyddiol gan ddefnyddio byrddau statws y claf ar un olwg i adolygu cleifion sydd ar ddiwedd eu hoes.
	Gofal a Hylendid Personol				
3.11	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn adeg pryd bwyd.	Cynhelir adolygiad o'r arfer o ddiogelu amser pryd bwyd er mwyn sicrhau y cynigir cyfle i bob claf olchi ei ddwylo fel rhan o'r broses hon	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Awst 2012	
	Anghenion tŷ bach				
3.12	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod unrhyw glaf y nodir bod ganddo broblemau anymataliaeth, yn derbyn asesiad mwy manwl a bod cynllun gofal priodol yn cael ei sefydlu.	Bydd y rhaglen waith ynglŷn â Chynllunio Gofal sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda Phrif Nyrsys y Wardiau yn parhau hyd at y cam gweithredu. Bydd cynlluniau gofal pob nyrs gofrestrdig ar y ward yn cael eu hadolygu fel rhan o'u proses Adolygu Datblygiad Personol, er mwyn cynnig cymorth sydd wedi ei dargedu'n well i fodloni'r safon ofynnol.	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Prif Nyrs y Ward gyda chymorth Uwch Nyrs	Awst 2012	

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
		Bydd y broses raddol o gyflwyno'r Bwndel Anymataliaeth yn parhau ar draws Powys	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	Awst 2012	
3.13	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu i ddangos bob tro y mae comôd yn cael ei lanhau gan y staff ar y wardiau.	Bydd system weledol sy'n dangos bod eitemau wedi eu glanhau yn cael ei gweithredu e.e. labeli 'Rwyf yn lân' i'w defnyddio bob tro y bydd eitem yn cael ei lanhau.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Awst 2012	Defnyddir labeli 'Rwyf yn lân' ar Ward Brecon.
	Meddyginiaeth a rheoli poen				
3.14	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod asesiad poen yn cael ei gynnal ar unwaith, ar ôl nodi bod claf mewn poen, a bod cynllun gweithredu'n cael ei sefydlu a fydd yn cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd.	Bydd y rhaglen waith ynglŷn â Chynllunio Gofal sydd ar y gweill gyda Phrif Nyrsys y Wardiau yn parhau hyd at y cam gweithredu. Bydd cynlluniau gofal pob nyrs gofrestredig ar y ward yn cael eu hadolygu fel rhan o'u proses Adolygu Datblygiad Personol, er mwyn cynnig cymorth sydd wedi ei dargedu'n well i fodloni'r safon ofynnol. Bydd y Tîm Gofal Lliniarol yn cynnal archwiliad o reolaeth poen a gweithredir ar sail y canlyniadau.	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Prif Nyrs y Ward gyda chymorth Uwch Nyrs Uwch Nyrs	Awst 2012	
	Cyfathrebu				
3.15	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu ar y wardiau i gynorthwyo cleifion â namau ar y synhwyrâu i gyfathrebu.	Byddwn yn edrych ar y syniad o osod system dolen sain i gynorthwyo cymhorthion cyfathrebu eraill sydd eisoes wedi eu sefydlu.	Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal	Gorffennaf 2012	

Cyf.	Argymhelliad	Camau Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Yr hyn a gyflawnwyd
Gweithgareddau					
3.16	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried dulliau o ddarparu gweithgareddau ac ysgogiad i'r cleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.	<p>Bydd y cam hwn yn gysylltiedig â'r cam yng nghynllun gweithredu'r Comisiynydd Pobl Hŷn 'Gofal Urddasol', lle mae dull cyffredinol o ddefnyddio gwirfoddolwyr yn cael ei ddatblygu.</p> <p>Bydd y swyddogaeth Cefnogi Cleifion sydd ar waith ar hyn o bryd ar Ward Bronllys yn cael ei ystyried ar gyfer Ward Brecon – i weithio gyda Swyddfa Gwirfoddolwyr Ward Brecon sy'n darparu peth cefnogaeth.</p> <p>Cydgysylltir â'r ward Iechyd Meddwl Pobl Hŷn er mwyn dysgu a rhannu gweithgareddau ystyrion.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Uwch Nyrs / Nyrs Arweiniol yr ardal</p>	<p>Medi 2012</p> <p>Gorffennaf 2012</p> <p>Gorffennaf 2012</p>	<p>Mae Therapydd Cefnogi Cleifion wedi ei benodi ar gyfer de-ddwyrain Powys sy'n gweithio ar y cyd â'r swyddfa gwirfoddolwyr a'r tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i ddarparu gweithgareddau yn y safleoedd.</p>
Dysgu Ehangach					
		Bydd y Bwrdd Iechyd yn galluogi holl Brif Nyrsys y Wardiau i ddysgu o'r adolygiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu o ran gwella safonau yn eu meysydd. Bydd yr adroddiadau yn cael eu rhoi ar yr agenda i'w trafod yng nghyfarfodydd Grŵp Prif Nyrsys y Wardiau, er mwyn cytuno ar gamau gweithredu.	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	Awst 2012	